

# Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru

## Adroddiad Blynyddol 2021/22

Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru

Conwy Valley and North West Wales Coast Community Rail Partnership

# Rhagair y Cadeirydd

Unwaith eto, mae blwyddyn arall wedi mynd heibio gan ddod â newidiadau sylweddol i'r bartneriaeth mewn nifer o ffyrdd. Mae ein Swyddog Rheilffordd Cymunedol newydd, Karen Williams, bellach wedi ymgartrefu yn ei swydd, ac wedi creu argraff dda ar bawb gyda'i brwdfrydedd wrth adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan Melanie Lawton. Rydym wedi gweld estyniad i ardal gweithredu'r Bartneriaeth i gynnwys rhan o'r lein o Gyffordd Llandudno i Gaergybi, sydd wedi golygu sefydlu cysylltiadau newydd ac asesu anghenion a dyheadau'r gwahanol gymunedau ar hyd ei llwybr. Fel rhan o hyn, rydym wedi cynyddu ein cydweithrediad gydag Avanti West Coast ac rydym yn ddiolchgar i'r gweithredwr hwnnw am eu cefnogaeth.

Mae'r trefniadau cynnal newydd gyda Chreu Menter wedi gwreiddio'n llwyddiannus ac yn gweithio'n dda. Rydym wedi gweld lansiad Hwb Cymunedol newydd yng Llandudno, ac fe'i hagorwyd gan Lesley Griffiths AS. Mae'r hwb wedi dod ac ardal wag o'r orsaf, a oedd gynt yn cynnwys Swyddfa Docynnau ac Ystafell Parseli, yn ôl i ddefnydd. Mae sefydlu'r Hwb wedi creu cyfleuster cymdeithasol gwerthfawr, ac mae ei ddatblygiad yn ganlyniad o gydweithio cadarnhaol rhwng Trafnidiaeth Cymru a Chartrefi Conwy.

Mae perthnasau cadarn wedi cael eu sefydlu rhyngom ni a sefydliadau megis Mind a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau, sydd wedi arwain at gynnal gweithgareddau yn yr awyr agored a nifer o gyfleoedd cymdeithasol cynhwysol mewn cysylltiad â'r rheilffordd. Yn sgil y cydweithio hynny rhwng y bartneriaeth rheilffordd, Mind a Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau, crëwyd y prosiect 'Cerdded er Lles', a roddodd gyfle i bobl leol fynychu teithiau cerdded ymwybyddiaeth ofalgar. Cyrhaeddodd y prosiect y rhestr fer yng ngwobrau'r Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymunedol, ac fe enillodd y 3ydd safle yn y categori "Ymgysylltu Gorau â'r Gymuned". Mae ein gwaith yn parhau i geisio canfod sefydliadau tebyg a fyddai'n elwa o gydweithio gyda'i gilydd ar hyd ein rhannau o'r rheilffordd. I'r perwyl hwn, rydym yn awyddus i ehangu ein haelodaeth er mwyn cynnwys mwy o sefydliadau trydydd sector sydd hefyd ar waith yn y maes.


O ran gweithredu mae Covid-19 wrth gwrs, wedi cael effaith sylweddol ar y diwydiant trafnidiaeth rheilffyrdd. Mae amserlenni dros dro wedi bod mewn defnydd ers peth amser, a'r gobaith yw y bydd gweithredwyr yn cyflwyno gwasanaethau mwy cynhwysfawr yn y dyfodol agos. Mae gogledd Cymru yn dibynnu'n fawr ar y sectorau hamdden a thwristiaeth, ac mae'r gallu pobl i deithio i'r ardal, yn enwedig o ardaloedd y canolbarth a gogledd-orllewin Lloegr, yn rhywbeth sydd angen ei wella. Rwyf yn ddiolchgar tu hwnt i Karen am ei chefnogaeth yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, a hefyd i'm his-gadeirydd, Annwen Daniels, sydd wedi bod yn gyswllt cymunedol gwerthfawr gyda Blaenau Ffestiniog. Mae wedi bod yn bleser gweithio ochr yn ochr â phartneriaid amrywiol yn y diwydiant a sefydliadau eraill.



Philip C Evans JP FIoL

**Prosiect Gosod Diffibrilwyr** Gweithiodd y bartneriaeth ar y cyd â Keep the Beats, elusen GIG Awyr Las, a Tomos Hughes, Swyddog Cymorth PADS Ambiwlans Cymru, ac ynghyd â chyllid gan Gartrefi Conwy a Menter Môn, gosodwyd diffibrilwyr mewn sawl lleoliad ar hyd y ddwy lein y mae'r bartneriaeth rheilffordd yn gofalu amdanynt. Ymhlith y lleoliadau yw Rhosneigr a llety byw'n annibynnol yn Llanrwst. Karen Williams, swyddog rheilffordd, a Tomos Hughes ddaeth o hyd i leoliadau a chael caniatâd gan berchnogion busnes lleol i'r dyfeisiau cael eu gosod ar eu heiddo. Mae saith uned bellach wedi eu gosod, a phob un wedi ei gofrestru gyda 'The Circuit', sef rhwydwaith diffibrilwyr cenedlaethol sydd wedi ei gysylltu â gwasanaethau'r GIG ar draws y DU, er mwyn cael gafael arnynt yn hawdd ac yn gyflym i helpu achub bywydau








**Cerdded er Lles** Yn ystod haf 2021, cysylltodd y bartneriaeth rheilffordd â Phartneriaeth Tirwedd y Carneddau a Conwy Mind, i drafod posibilrwydd o gydweithio er mwyn creu teithiau cerdded o fewn ardal y Carneddau, gyda'r nod o gefnogi pobl leol a oedd wedi profi unigedd yn sgil y cyfyngiadau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y pandemig.



Cynlluniodd Nick Meakins, arweinydd y teithiau a hyfforddwr gyda Mind, pedwar taith gerdded o fewn dalgylch y bartneriaeth a oedd yn canolbwyntio ar y pum ffordd at les. Roedd adborth cadarnhaol gan gyfranogwyr a gymerodd rhan yn y teithiau cerdded yn awgrymu fod 90% ohonynt yn teimlo eu bod â’r gallu i wneud pethau’n well a bod ganddynt deimladau o gyflawniad.





## Cronfa Cadernid COVID-19

Yn dilyn yr heriau a brofwyd gan grwpiau cymunedol lleol yn sgil cyfyngiadau Covid, ymunodd y bartneriaeth rheilffordd â'u cwmni gweithredu, Trafnidiaeth Cymru, i greu cronfa cadernid. Rhoddodd y gronfa'r cyfle i grwpiau cymunedol lleol, a oedd wedi eu lleoli o fewn pum milltir o'u gorsaf rheilffordd agosaf, wneud cais am grant o hyd at £500 i'w defnyddio i helpu adfer eu busnes wrth i bethau ddechrau ailagor. Hwyluswyd y grant gan Gyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy (CGGC) a roddodd cefnogaeth trwy hysbysebu, rheoli'r gronfa a sgrinio ceisiadau.



Ymhlith rhai o'r ceisiadau a dderbyniwyd oedd cais gan grŵp bach Clwb y Cob yn Fali, Ynys Môn, sy'n gwasanaethu oddeutu 60 o drigolion lleol sy'n 50 oed neu'n hyn, ac a oedd yn anffodus wedi colli ei hysgrifennydd yn ystod y pandemig a oedd wedi bod yn defnyddio ei gyfrifiadur ei hun i gadw holl fanylion aelodaeth y grŵp. Galluogodd y grant i'r grŵp creu cronfa ddata newydd, creu a dosbarthu cylchlythyrau i aelodau, a sefydlu cyfarfodydd Zoom, gan alluogi aelodau i gadw mewn cyswllt yn ystod cyfnod heriol. Mynychodd pob ymgeisydd llwyddiannus galwad 'Teams' i ddangos sut a ble y byddai cymhorthdal y grant yn cael ei wario a phwy fyddai'n elwa ohono. Roedd yn gyfle arbennig i greu cysylltiadau a pherthnasau newydd gyda grwpiau yn nalgylch y bartneriaeth.

**Hyder i Deithio** Ymunodd y bartneriaeth â Thrafnidiaeth Cymru i gyllido prosiect a oedd yn canolbwyntio ar ddiffyg hyder pobl wrth ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Gofynnwyd i TAPE, grŵp cerdd a ffilm cymunedol lleol, i'w ffilmio a'i gynhyrchu gyda chymorth pobl ifanc a oedd â diddordeb mewn cynhyrchu cyfryngau. Datblygwyd sgriptiau ar gyfer dwy daith bwysig. Y cyntaf oedd taith ar fws i ganolfan waith, lle'r oedd person ifanc gydag apwyntiad gyda hyfforddwr gwaith. Yr ail oedd taith bwysig ar drên i gyrraedd priodas deuluol, gan ddefnyddio gwasanaethau cysylltiol mewn gorsafoedd prysur. Canolbwyntiodd y ffilm ar y straen a phryder a brofir gan bobl ag iechyd meddwl gwael neu anableddau cudd.





**Cledrau Cymru** Roedd y bartneriaeth yn un o sawl Partneriaeth Rheilffordd Cymunedol ledled Cymru a gyfrannodd at wefan sydd â'r nod o hybu twristiaeth drwy ddefnyddio teithio cynaliadwy ar draws y wlad. Mae'r wefan yn cynnwys ffeithiau diddorol a gwybodaeth am atyniadau ym mhob gorsaf dan sylw. Cynhaliwyd lansiad swyddogol yng ngorsaf Caerdydd Canolog a fynychwyd gan Vaughan Gething, gweinidog economi a thrafnidiaeth Cymru, a James Price, prif swyddog gweithredol Trafnidiaeth Cymru. Mynychwyd y digwyddiad hefyd gan Tim Dunne, cyflwynydd teledu a hanesydd rheilffyrdd Prydain. Ceir rhagor o wybodaeth am Gledrau Cymru yma:
Cledrau Cymru / Wales on Rails

**Prosiect celf gorsaf reilffordd Caergybi**
Gweithiodd Swyddog Rheilffordd Karen Williams ar y cyd â'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) a disgyblion Ysgol Uwchradd Caergybi i greu gwaith celf newydd i gymryd lle'r hen arddangosfa ar blatfform 2. Mae gorsaf Caergybi yn dioddef o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a'r gobaith yw y bydd y syniad o ddod â phobl ifanc lleol i mewn i weithio ar y prosiect yn rhoi ymdeimlad o falchder a chyfrifoldeb iddynt am eu creadigaethau. Penderfyniad y disgyblion oedd pa negeseuon i'w cynnwys, megis diogelwch dŵr (mae'r orsaf drenau yn agos at Borthladd Caergybi) a diogelwch ar y rheilffordd, yn ogystal â gwybodaeth am gefnogaeth iechyd meddwl. Cafodd Sharon Bibby, gweithiwr cyfiawnder ieuenctid, gymorth yr artist graffiti lleol Andy Birch, a gefnogodd y disgyblion gyda'u gwaith gan rannu ei sgiliau a'i wybodaeth arbenigol. Ariannwyd y prosiect gan Avanti West Coast.




Meddai Alison Barker, Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) gyda'r BTP: "Mae wedi bod yn bleser enfawr gweithio gyda Phartneriaeth Rheilffordd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru a disgyblion Ysgol Uwchradd Caergybi ar y prosiect hwn. Fel PCSO yn gweithio i'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig, mae cyfle fel hwn i ddod i adnabod ac ymgymryd â'r gymuned leol yn ardderchog. Mae'r gwaith celf yn rhyfeddol o dda ac yn glod i bawb a gymerodd rhan. Roedd yn arbennig o bleserus gweithio yn yr ystafell ddosbarth gyda disgyblion, dod i'w hadnabod, a chwalu rhwystrau a all sefyll weithiau rhwng pobl ifanc a'r heddlu."



Meddai Sharon Bibby: "Mae wedi bod yn bleser pur gweithio ar y prosiect hwn. Fe gafodd y disgyblion profiad anhygoel gydag Andy a'r paent chwistrellu. Dysgwyd sgiliau newydd wrth iddynt gael hwyl ac ennill cymhwyster newydd. 'Dan ni methu aros i weld ein celf yn cael ei arddangos yn yr orsaf."

**Os ydych chi a'ch sefydliad wedi cael eich ysbrydoli gan waith y Bartneriaeth Rheilffordd Cymunedol, ac yn dymuno cymryd rhan, cynnig syniadau neu gefnogi, cysylltwch â:**

**conwyvalleyrailway.co.uk**

@LeinDconwyVLine

@RheilffordddDyffrynConwyConwyValleyRailway